



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUNIAU

YMWELIADAU GWIRFODDOL AR UN DUDALEN

EBRILL 2025-MAWRTH 2026

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar waith ein Cynlluniau Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd ac Ymweliadau Lles Anifeiliaid yn ystod 2025/26. Mae'r adroddiad llawn ar gael yma. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVs) ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid (AWV) yn wirfoddolwyr penodedig sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ne Cymru. Mae ICVs yn cynnal ymweliadau dirybudd â dalfeydd yr heddlu yn ne Cymru i fonitro lles y bobl sy'n cael eu cadw yno. Mae Gwirfoddolwyr Lles Anifeiliaid yn cynnal ymweliadau dirybudd â safle cŵn a cheffylau'r heddlu i wirio lles y cŵn a'r ceffylau.

Mae Heddlu De Cymru'n gweithredu pedair dalfa: Bae Caerdydd Merthyr Tudful, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn y cyfnod hwn, bu 25,501 o arestiadau cynradd a arweiniodd at gadw'r tramgwyddwyr yn y ddalfa.



YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD



Siarad â phobl sy'n cael eu cadw mewn dalfeydd a gwirio eu cofnodion i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu bodloni wrth fod yn y ddalfa.



Adrodd ar gyflwr ffisegol cyfleusterau'r ddalfa.



Cofnodi eu canfyddiadau ar ffurflen adrodd am ymweliad ar gyfer Rheolwr y Cynllun gan gynnwys tynnu sylw at unrhyw bryderon neu arferion da.



Mynychu a chyfranogi mewn Cyfarfodydd Panel chwarterol y Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd, hyfforddiant rheolaidd a'r gynhadledd flynyddol.

64

YMWELIADAU
Â DALFEYDD

200

O YMWELIADAU Â
CHARCHARORION

122

GARCHARORION
YCHWANEGOL A
WELWYD

14

YMWELWYR
ANNIBYNNOL
Â DALFEYDD

20

Pen-y-bont

13

Caerdydd

10

Merthyr Tudful

21

Abertawe

19

YMWELIADA
U LLES
ANIFEILIAID

7

YMWELWYR
LLES
ANIFEILIAID

HYFFORDDIANT

- Darparwyd hyfforddiant cynefino a hyfforddiant blynyddol.
- Modiwlau e-ddysgu'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi'u cwblhau.
- Hyfforddiant ar ICVs i staff y dalfeydd.

DEMOGRAFFEG ICVS A RECRIWTIO

- Ystod amrywiol o oeddrannau, rhyweddau, rhywioldeb ac ethnigrwydd.
- Sawl ymgyrch recriwtio, a gefnogwyd gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i helpu i wella amrywiaeth y garfan o wirfoddolwyr ac annog ceisiadau gan grwpiau wedi'u tangynrychioli.

FFRAMWAITH SICRHAU ANSAWDD YR ICVA



Dyfarnwyd Gwobr Arian QAF i'n cynllun gwirfoddolwyr gan yr ICVA.



CYFLAWNIADAU A HERIAU YMWELIADAU ICVS

- Arsylwyd yn gyson ar ofal cadarnhaol i garcharorion a phroffesiynoldeb staff.
- Argaeledd da o eitemau diddanu a chefnogaeth ar gyfer anghenion dietegol.
- Ymdriniwy yn gyflym d â phrinder nwyddau a phroblemau gyda'r cyfleusterau.
- Cyflwynwyd monitro gwell i leihau problemau sy'n gysylltiedig ag ystadau.
- Rhai pryderon ynghylch y dewis o fwyd, opsiynau iach ac oedi achlysurol.
- Roedd pwysau gweithredol yn y dalfeydd wedi effeithio ar nifer bach o ymweliadau.

YMWELWYR LLES ANIFEILIAID



Yn gweld pob ci a cheffyl unwaith mewn cyfnod o 12 mis.



Yn adrodd ar amodau ffisegol y safle e.e. cenelau a stablau.



Yn mynychu cyfarfod panel, hyfforddiant rheolaidd a sesiynau craffu ychwanegol fel gwirio cenelau gartref ac arsylwi ar hyfforddiant cŵn

CYFLAWNIADAU A HERIAU YMWELIADAU GAN AWVS

- Canmolwyd staff yn gyson am eu dull croesawgar a phroffesiynol.
 - Arsylwyd ar safonau cryf o ran lles anifeiliaid, a chymerwyd camau prydlon i ddatrys pryderon.
 - Cyflwynwyd pecynnau cymorth cyntaf i gŵn a chwblhaodd staff hyfforddiant cymorth cyntaf.
 - Cynhaliwyd y cerbydau mewn cyflwr da, gan ddatrys problemau yn gyflym.
- Mae'r cynllun wedi'i gydnabod gan y Dogs Trust gan atgyfnerthu craffu allanol, arbenigedd lles a chyfleoedd hyfforddiant i wirfoddolwyr.



YN EDRYCH YMLAEN - NODAU AR GYFER 26/27



- Gweithio tuag at statws Gwobr Aur
- Archwilio dulliau adrodd digidol
- Recriwtio, cynefino a chadw gwirfoddolwyr

- Amrywio amseroedd a dyddiau'r ymweliadau gan wirfoddolwyr
- Darparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu cynhwysfawr i wirfoddolwyr